Sioe Sir Meirion — AWST 2008

Mae'r sioe yn ddigwyddiad pwysig ym Meirionnydd ac yn debyg i'r Eisteddfod Genedlaethol yn ei phatrwm o ymweld â gwahanol ardaloedd. Eleni tro ardal y Bala oedd hi, ac unwaith eto roeddem ni fel Mantell Gwynedd â phabell ar y cae yn hyrwyddo'r trydydd sector. Y tro cyntaf i ni arbrofi gyda'r babell oedd yn Sioe Tywyn yn 2007. Roedd yr arbrawf yn llwyddiant ac eleni penderfynwyd adeiladu a'r hyn, gan gynnig yr un gwahoddiad. Roedd yr ymateb gan y mudiadau unwaith eto yn galonogol iawn ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y mudiadau yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod o dan adain Mantell Gwynedd.

Ymysg y rhai â ymunodd â ni eleni oedd Y Gymdeithas Strôc oedd yn mesur pwysedd gwaed yr ymwelwyr, Cymdeithas MS, Cynghrair Cyflyrau Iechyd Tymor Hir De Gwynedd, SOVA Cymru, Cymorth i Ferched De Gwynedd, Teleofal Gwynedd, Masnach Deg, Urdd Gobaith Cymru / Glanllyn ac eraill.

Roedd ffrwythau ar gael am ddim - diolch i gyfraniad hael siop Somerfields Y Bala. Diolch i gwmniau eraill o ardal Y Bala am eu rhoddion hael i'r raffl– hyn yn gymorth i ddenu'r tyrfaoedd i'r stondin – sef Awen Meirion, Fferyllfa Rowlands Bala a Thafarn yr Eryrod, Llanuwchllyn,

Lansio Cynghrair Cyflyrau Iechyd Tymor Hir De Gwynedd yn y Sioe!

Lansiwyd Cyfeirlyfr Gwasanaethau'r Gynghrair gan Elfyn Llwyd (AS) yn y Sioe eleni. Mae'r Cyfeirlyfr yn cynnwys manylion cyswllt a gwybodaeth am wasanaethau cefnogol sydd ar gael i bobl sy'n byw efo cyflyrau Iechyd Tymor Hir yn Ne Gwynedd.

Os ydych eisiau copi electroneg o'r Cyfeirlyfr neu os ydych eisiau gwybod mwy am waith y Gynghrair mae croeso i chi gysylltu â Sioned ym Mantell Gwynedd neu Ysgrifennydd y Gynghrair Richard Paramor ar r.paramor@btopenworld.com

Roedd yn gyfle da i Mantell Gwynedd gyfarfod â phobl Meirionnydd ac eraill, i roi gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau sydd ar gael.

Un ymwelydd â'r babell yn ystod y dydd oedd Mr. Nick Bourne—arweinydd y Ceidwadwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Mantell Gwynedd yn falch o groesawu mudiadau gwirfoddol, ac yn ei weld yn gyfle gwych i rwydweithio ac i hyrwyddo'r sector.

Bydd cyfle i wneud yr un fath yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala yn Awst 2009. Cysylltwch â Mantell cyn gynted â phosibl os oes gennych ddiddordeb mewn rhannu stondin!